



# **CYNLLUNIAU MARCIO TGAU**

**LLENYDDIAETH GYMRAEG  
HAF 2014**

## RHAGARWEINIAD

Y cynlluniau marcio a ganlyn yw'r rhai a ddefnyddiwyd gan CBAC ar gyfer arholiad Haf 2014 TGAU LLENYDDIAETH GYMRAEG. Penderfynwyd arnynt yn derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y cynadleddau yn fuan ar ôl sefyll y papurau fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y cynadleddau oedd sicrhau bod y cynlluniau marcio wedi'u dehongli a'u cymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynlluniau marcio hyn.

## Haen Sylfaenol Barddoniaeth

### C.1

- (a) Cymru a Chymreictod [2]  
Iwan Llwyd
- (b) Rhaid cyfeirio at y gerdd gyfan. [20]  
Gellir sôn am bwyntiau megis:
- Dyddiad yw teitl y gerdd. Ar y diwrnod hwn roedd saith can mlynedd (saith canrif) ers marwolaeth Llywelyn ein Llyw Olaf yng Nghilmeri. Mae Iwan Llwyd yn temlo'n drist wrth edrych yn ôl dros y saith canrif ddiwethaf.
  - Mae'r tywydd yn cyfleu ei deimladau – mae'n oer ac yn bwrw glaw yng nghanol y gaeaf.
  - Daeth y bobl ynghyd i sôn am hanes Cymru. Ceir elfen o feirniadaeth yma ein bod yn edrych yn ôl yn unig a'n bod fel cenedl ar ochr y dibyn fel nad ydym yn gallu gweld dyfodol i'n cenedl **“ar erchwyn y dibyn.”**
  - Collodd Cymru lawer o bethau yn ystod y saith canrif ddiwethaf. Rydym ni fel cenedl yn ei chael yn anodd i **‘edrych i'r gorwel yn ddistaw.’**
  - Mae mor oer nes bod hyd yn oed yr afon Irfon, oedd gerllaw'r man y lladdwyd Llywelyn fel petai wedi rhewi.
  - Yn rhan olaf y gerdd mae sŵn crio babi yn torri ar draws y tawelwch ac mae Iwan LLwyd yn sylweddoli bod dyfodol disglair yn bosibl i'n gwlad. **‘Her canrif newydd’** yw edrych at y dyfodol a magu ein plant i garu eu gwlad.

16-20	<ul style="list-style-type: none"> <li>• dangos dealltwriaeth dda o'r cynnwys</li> <li>• defnyddio dyfyniadau addas</li> <li>• <i>cyflwyno'r gwaith yn drefnus</i></li> <li>• <i>arddangos gafael dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i></li> </ul>
10-15	<ul style="list-style-type: none"> <li>• arddangos gwybodaeth am gynnwys y gerdd trwy gyflwyno ffeithiau perthnasol</li> <li>• defnyddio dyfyniadau</li> <li>• <i>cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus</i></li> <li>• <i>gafael weddol dda ar sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i></li> </ul>
4-9	<ul style="list-style-type: none"> <li>• arddangos gwybodaeth am gynnwys y gerdd trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol</li> <li>• defnyddio ambell ddyfyniad</li> <li>• <i>dangos trefn mewn rhannau o'r gwaith</i></li> <li>• <i>dangos y gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i></li> </ul>
0-3	<ul style="list-style-type: none"> <li>• peth gwybodaeth yn unig am y gerdd</li> <li>• <i>ymgais at ddilyniant</i></li> <li>• <i>ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol ac i atalnodi a sillafu rhai geiriau'n gywir ar adegau</i></li> </ul>

(c) Rhaid i'r tair nodwedd fod yn wahanol.  
 Rhaid enwi'r nodwedd cyn cael marc am y dyfynnu ac effeithiolrwydd.  
 Os nodir nodwedd heb ddyfyniad – dim marc.  
 Gellir cyfeirio at fesur fel nodwedd – ½ marc am enwi'r mesur, ½ marc am enwi un o briodoleddau'r mesur; 2 farc am drafod effeithiolrwydd y mesur yn y gerdd.

- ½ marc am enwi'r nodwedd
- ½ marc am ddyfynnu'r nodwedd
- 2 farc am esbonio effeithiolrwydd

3 marc x 3 [9]

(ch)

[9]

7-9	<ul style="list-style-type: none"> <li>• ymateb a dadansoddi a dangos dealltwriaeth eithaf da o thema</li> <li>• defnyddio dyfyniadau addas</li> <li>• <i>cyflwyno'r gwaith yn drefnus</i></li> <li>• <i>arddangos gafael dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i></li> </ul>
4-6	<ul style="list-style-type: none"> <li>• ymateb a dangos dealltwriaeth o thema</li> <li>• defnyddio dyfyniadau</li> <li>• <i>cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus</i></li> <li>• <i>gafael weddol dda ar sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i></li> </ul>
2-3	<ul style="list-style-type: none"> <li>• ymateb a dangos peth dealltwriaeth o thema</li> <li>• defnyddio ambell ddyfyniad</li> <li>• <i>dangos trefn mewn rhannau o'r gwaith</i></li> <li>• <i>dangos y gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i></li> </ul>
0-1	<ul style="list-style-type: none"> <li>• ymateb a dangos ychydig o ddealltwriaeth o thema</li> <li>• ymgais at ddilyniant</li> <li>• <i>ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol ac i atalnodi a sillafu rhai geiriau'n gywir ar adegau</i></li> </ul>

**C.2**

- (a)  $\frac{1}{2}$  am enwi'r cerddi x 2 [2]  
 $\frac{1}{2}$  am enwi'r beirdd x 2
- (b) Disgwylir i'r ymgeiswyr ymdrin â'r ddwy gerdd yn gyfartal. 10x2 marc. Os bydd ymgeisydd wedi ateb ar un gerdd yn unig / cerdd amherthnasol – 10 marc yw'r uchafswm a ddyfernir. [20]  
 Disgwylir bod ymgeiswyr yn cyfiawnhau eu dewis o gerddi.

8-10	<ul style="list-style-type: none"> <li>dangos dealltwriaeth dda o'r cynnwys</li> <li>defnyddio dyfyniadau addas</li> <li><i>cyflwyno'r gwaith yn drefnus</i></li> <li><i>arddangos gafael dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i></li> </ul>
5-7	<ul style="list-style-type: none"> <li>arddangos gwybodaeth am gynnwys y gerdd trwy gyflwyno ffeithiau perthnasol</li> <li>defnyddio dyfyniadau</li> <li><i>cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus</i></li> <li><i>gafael weddol dda ar sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i></li> </ul>
2-4	<ul style="list-style-type: none"> <li>arddangos gwybodaeth am gynnwys y gerdd trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol</li> <li>defnyddio ambell ddyfyniad</li> <li><i>dangos trefn mewn rhannau o'r gwaith</i></li> <li><i>dangos y gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i></li> </ul>
0-1	<ul style="list-style-type: none"> <li>peth gwybodaeth yn unig am y gerdd</li> <li><i>ymgais at ddilyniant</i></li> <li><i>ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol ac i atalnodi a sillafu rhai geiriau'n gywir ar adegau</i></li> </ul>

- (c) Rhaid i'r tair nodwedd fod yn wahanol.  
 Rhaid enwi'r nodwedd cyn cael marc am y dyfynnu ac effeithiolrwydd.  
 Os nodir nodwedd heb ddyfyniad – dim marc.  
 Gellir cyfeirio at fesur fel nodwedd - ½ marc am enwi'r mesur, ½ marc am enwi un o briodoleddau'r mesur; 2 farc am drafod effeithiolrwydd y mesur yn y gerdd.
- ½ marc am enwi'r nodwedd
  - ½ marc am ddyfynnu'r nodwedd
  - 2 farc am esbonio effeithiolrwydd

3 marc x 3 [9]

(ch)

[9]

7-9	<ul style="list-style-type: none"> <li>• ymateb, dadansoddi a dangos dealltwriaeth eithaf da o thema</li> <li>• defnyddio dyfyniadau addas</li> <li>• <i>cyflwyno'r gwaith yn drefnus</i></li> <li>• <i>arddangos gafael dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i></li> </ul>
4-6	<ul style="list-style-type: none"> <li>• ymateb a dangos dealltwriaeth o thema</li> <li>• defnyddio dyfyniadau</li> <li>• <i>cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus</i></li> <li>• <i>gafael weddol dda ar sillafu atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i></li> </ul>
2-3	<ul style="list-style-type: none"> <li>• ymateb a dangos peth dealltwriaeth o thema</li> <li>• defnyddio dyfyniadau</li> <li>• <i>dangos trefn mewn rhannau o'r gwaith</i></li> <li>• <i>dangos y gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i></li> </ul>
0-1	<ul style="list-style-type: none"> <li>• ymateb a dangos ychydig o ddealltwriaeth o thema</li> <li>• <i>ymgais at ddilyniant</i></li> <li>• <i>ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol ac i atalnodi a sillafu rhai geiriau'n gywir ar adegau</i></li> </ul>

[40]

## Llinyn Trôns

### C.3

- (a) 1½ marc am bob ateb cywir hyd at 2 ffaith [3]

Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Gags a Gwenan wedi ffraeo yn y twmpath a'r disgo'r noson gynt
- Wedi bod yn cymysgu cyffuriau ac alcohol
- Poeni am ei ganlyniadau TGAU
- Gags wedi pwdu
- Wedi ceisio lladd ei hun
- Pwysau teulu
- Heb wneud cystal yn y gweithgareddau

- (b) 1 marc am bob pwynt [3]

Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Cenfigen – yn boblogaidd ac yn alluog
- Cael ei fwlio ganddo
- Pen i lawr y tŷ bach
- Gwlychu'r gwely
- Yn gariad i Gwenan – Llion yn ei ffansio hi
- Yn debyg i'w frawd Merfyn sy'n ffefryn gan ei dad

- (c) Gellir sôn am bwyntiau megis: [10]

- Gwenan ddim yn awyddus i wneud gweithgaredd arall – gorfod ei pherswadio
- Gwisgo'r offer cywir – harneisi a helmedau
- Gweithio mewn parau
- Llion yn nerfus – ond yn dda
- Olwen a Gags yn cael ras – pwy sy'n cyrraedd y copa gyntaf
- Gags bron â chael damwain oherwydd diffyg canolbwyntio Nobi
- Donna'n cael gair gyda Gags a Nobi am eu hymddygiad
- Dei yn llwyddo i ddringo
- Gwenan yn torri ei hewin

[10]

8-10	<ul style="list-style-type: none"> <li>• dangos dealltwriaeth dda o'r nofel</li> <li>• <i>cyflwyno'r gwaith yn drefnus</i></li> <li>• <i>arddangos gafael dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i></li> </ul>
4-7	<ul style="list-style-type: none"> <li>• dangos dealltwriaeth eithaf da o'r nofel</li> <li>• <i>dangos trefn mewn rhannau o'r gwaith</i></li> <li>• <i>dangos y gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i></li> </ul>
0-3	<ul style="list-style-type: none"> <li>• arddangos gwybodaeth am gynnwys y nofel trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol am y stori</li> <li>• <i>ymgais at ddilyniant</i></li> <li>• <i>ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol ac i atalnodi a sillafu rhai geiriau'n gywir ar adegau</i></li> </ul>

(ch) Gellir sôn am bwyntiau megis:

[6]

golygus	Pawb yn ei ffansiö hi – Gags a Llion
diog	Ei mam yn mynd â hi i bob man yn y car
edrychiad yn bwysig iddi	'smygu i gadw'n denau / gwisgo dillad anaddas ar gyfer y gweithgareddau
dihyder	Ofn dringo'r graig
anffyddlon	Cusanu Llion yn y disgo ar y noson olaf

5-6	<ul style="list-style-type: none"><li>• dangos dealltwriaeth dda o'r cymeriad</li><li>• rhoi nifer o resymau / digwyddiadau fel tystiolaeth</li></ul>
3-4	<ul style="list-style-type: none"><li>• dangos dealltwriaeth eithaf da o'r cymeriad</li><li>• rhoi rhai rhesymau / digwyddiadau fel tystiolaeth</li></ul>
0-2	<ul style="list-style-type: none"><li>• arddangos gwybodaeth am gymeriad trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol am y stori</li><li>• ambell gyfeiriad at reswm neu digwyddiad</li></ul>

(d) (i) 1 marc am sylw perthnasol x 2

[2]

(ii) 1 marc am sylw perthnasol x 2

[2]

(iii) 1 marc am enwi'r nodwedd  
1 marc am ddyfyniad cywir  
2 marc am sylw drafod effaith

[4]



- (dd) Gellir sôn am bwyntiau megis: [10]
- Ei ymateb i weld Dei yn gwisgo “wetsuit”
  - Llion yn cynorthwyo Dei i mewn i’w ganŵ
  - Cenfigen at Llion yn cynorthwyo Gwenan unwaith eto i gario’r canŵ
  - Donna’n dangos iddyn nhw sut i ddod allan o’r canŵ mewn argyfwng
  - Nobî yn troi ei ganŵ ef ac un Tecs Pecs am fod Nobî wedi mynd i banig

8-10	<ul style="list-style-type: none"> <li>• dangos gwybodaeth dda am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau</li> <li>• dangos ymwybyddiaeth o brif nodweddion y testun gwreiddiol o ran naws ac awyrgylch yn eithaf da</li> <li>• ymwybyddiaeth o nodweddion y cymeriad a’i deimladau</li> <li>• <i>adnabyddiaeth eithaf da o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu eithaf da sy’n briodol i’r pwrpas</i></li> <li>• <i>arddangos gafael dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i></li> </ul>
4-7	<ul style="list-style-type: none"> <li>• dangos gwybodaeth am y testun gwreiddiol - trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol i’r dasg dan sylw am gymeriadau a digwyddiadau</li> <li>• ymgais i adlewyrchu’r testun gwreiddiol o ran naws ac awyrgylch</li> <li>• dangos peth dealltwriaeth o gymeriadau</li> <li>• <i>ymwybyddiaeth fras o’r ffurf gan ddangos peth ymdrech i ysgrifennu’n briodol i’r pwrpas</i></li> <li>• <i>dangos y gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i></li> </ul>
0-3	<ul style="list-style-type: none"> <li>• dangos peth gwybodaeth am y testun gwreiddiol - cymeriadau a digwyddiadau</li> <li>• ymgais i gyflwyno gwaith creadigol yn seiliedig ar destun syml</li> <li>• ychydig o fanylion am gymeriadau a digwyddiadau</li> <li>• <i>peth ymwybyddiaeth o’r ffurf a’r angen i ysgrifennu’n briodol i’r pwrpas</i></li> <li>• <i>ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol ac i atalnodi a sillafu rhai geiriau’n gywir ar adegau</i></li> </ul>

[40]

## Bachgen yn y Môr

### C.4

- (a) 1½ marc am bob ateb cywir hyd at 2 ffaith [3]  
 Gellir sôn am bwyntiau megis:
- mynd i'r stadiwm pêl droed
  - gweld y fam yn aros ei chosb o farwolaeth gyhoeddus
  - aros yn y siop
  - mynd yn y tacsî
- (b) 1 marc am bob pwynt [3]  
 Gellir sôn am bwyntiau megis:
- gadael eu cartref yn Afghanistan a dianc i Awstralia
  - dianc yn y tacsî
  - cyrraedd gwerysll ffoaduriaid
  - bywyd gwell
- (c) Gellir sôn am bwyntiau megis:
- Gweld milwyr – Jamal yn poeni
  - Jamal a Bibi'n gobeithio mai eu rhieni sydd ar y lan yn aros amdanynt
  - Andrew yn mynd â nhw i bebyll
  - Rhyddid i chwarae pêl droed
  - Jamal yn rhy brysur i wrando ar beth sydd gan Omar i ddweud am y gwerysll –
  - Poeni bod cwch eu rhieni wedi suddo – gweiddi ar y morwyr i lawnsio cwch achub
  - Sylweddoli nad ydyn nhw yn Awstralia
  - Rashida yn addo gofalu am Jamal a Bibi am byth [10]

8-10	<ul style="list-style-type: none"> <li>• dangos dealltwriaeth dda o'r nofel</li> <li>• <i>cyflwyno'r gwaith yn drefnus</i></li> <li>• <i>arddangos gafael dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i></li> </ul>
4-7	<ul style="list-style-type: none"> <li>• dangos dealltwriaeth eithaf da o'r nofel</li> <li>• <i>dangos trefn mewn rhannau o'r gwaith</i></li> <li>• <i>dangos y gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i></li> </ul>
0-3	<ul style="list-style-type: none"> <li>• arddangos gwybodaeth am gynnwys y nofel trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol am y stori</li> <li>• <i>ymgais at ddilyniant</i></li> <li>• <i>ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol ac i atalnodi a sillafu rhai geiriau'n gywir ar adegau</i></li> </ul>

(ch)

Penderfynol	Chwarae pêl droed, felly'n torri rheolau llywodraeth Afghanistan
naïf	Rhedeg ar ôl y bêl – glanio yn nŵr yr harbwr
ffyddlon	Gofalu am ei brawd – gwrthod mynd gydag Yusuf
Byr ei thymor	Cicio a chnoi'r morwr ar ôl iddo daro Jamal yn ei wyneb

5-6	<ul style="list-style-type: none"><li>dangos dealltwriaeth dda o'r cymeriad</li><li>rhoi nifer o resymau/digwyddiadau fel tystiolaeth</li></ul>
3-4	<ul style="list-style-type: none"><li>dangos dealltwriaeth eithaf da o'r cymeriad</li><li>rhoi rhai rhesymau/digwyddiadau fel tystiolaeth</li></ul>
0-2	<ul style="list-style-type: none"><li>arddangos gwybodaeth am gymeriad trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol am y stori</li><li>ambell gyfeiriad at reswm neu digwyddiad.</li></ul>

[6]

(d) (i) 1 marc am sylw perthnasol x 2

[2]

(ii) 1 marc am sylw perthnasol x 2

[2]

(iii) 1 marc am enwi'r nodwedd

1 marc am ddyfyniad cywir  
2 marc am sylw drafod effaith

[4]

(dd) Gellir sôn am bwyntiau megis: [10]

- Cyfarfod Omar – sylweddoli ei fod yn fachgen cyfeillgar
- Ofn - sylweddoli nad yw ef a Bibi gyda'u rhieni - maen nhw ar gwch arall sydd wedi gadael
- Gweiddi ar y cwch arall i droi'n ôl
- Jamal yn gweld ffolineb Bibi yn mynd ar ôl y bêl, ond yn cael ei hunan i mewn i drafferth wrth wneud

8-10	<ul style="list-style-type: none"> <li>• dangos gwybodaeth dda am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau</li> <li>• dangos ymwybyddiaeth o brif nodweddion y testun gwreiddiol o ran naws ac awyrgylch yn eithaf da</li> <li>• ymwybyddiaeth o nodweddion y cymeriad a'i deimladau</li> <li>• <i>adnabyddiaeth eithaf da o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu eithaf da sy'n briodol i'r pwrpas</i></li> <li>• <i>arddangos gafael dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i></li> </ul>
4-7	<ul style="list-style-type: none"> <li>• dangos gwybodaeth am y testun gwreiddiol - trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol i'r dasg dan sylw am gymeriadau a digwyddiadau</li> <li>• ymgais i adlewyrchu'r testun gwreiddiol o ran naws ac awyrgylch</li> <li>• dangos peth dealltwriaeth o gymeriadau</li> <li>• <i>ymwybyddiaeth fras o'r ffurf gan ddangos peth ymdrech i ysgrifennu'r briodol i'r pwrpas</i></li> <li>• <i>dangos y gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i></li> </ul>
0-3	<ul style="list-style-type: none"> <li>• dangos peth gwybodaeth am y testun gwreiddiol - cymeriadau a digwyddiadau</li> <li>• ymgais i gyflwyno gwaith creadigol yn seiliedig ar destun syml</li> <li>• ychydig o fanylion am gymeriadau a digwyddiadau</li> <li>• <i>peth ymwybyddiaeth o'r ffurf a'r angen i ysgrifennu'n briodol i'r pwrpas</i></li> <li>• <i>ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol ac i atalnodi a sillafu rhai geiriau'n gywir ar adegau</i></li> </ul>

[40]

## Ac Yna Clywodd Sŵn y Môr

### C.5

- (a) 1½ marc am bob ateb cywir hyd at 2 ffaith [3]  
 Gellir sôn am bwyntiau megis:
- Rhyddhad – wedi gorfod gweithio'n galed i gael y trysor
  - Dwyn o siop Jenkins / twyllo Harri Evans /
  - Wedi cael gafael yn ei drysor er gwaethaf yr holl rwystrau
  - Sylweddoli mai ei ffortiwn e sydd yno gan fo Harri Evans wedi marw
- (b) Gellir sôn am bwyntiau megis: [3]  
 1 marc am bob pwynt
- Harri Evans wedi gofyn i weld yr heddlu ar ei wely angau
  - Gareth Hughes wedi adnabod ei wyneb yn dilyn y ddamwain bum mlynedd ynghynt
  - Gladys Davies yn gwneud cwyn swyddogol – yr heddlu'n ailagor ffeiliau
  - Richard Jones yn ffonio'r ysbyty – esgus bod yn gefnder i Harri Evans
  - Ceisio cael gwybodaeth gan Now Tan Ceris
- (c) Gellir sôn am bwyntiau megis: [10]
- Huw wedi bod yn dathlu ei fod wedi cael rhan o ewyllys Gladys
  - Huw yn dweud yn y dafarn ar ôl meddwi ei fod am ladd Meredydd
  - Cael ei daflu allan o westy Sant Aron
  - Gareth Hughes yn ei wyllo, taflu sach dros ei ben a'i daro'n ddirugaredd
  - Gareth Hughes yn trefnu ei fod yn cael ei ddal yn yfed a gyrru
  - Robin Gwastad Hir wedi cael digon o'i fab
  - Rhoi bysedd yn ei lwnc er mwyn ei wneud yn sâl

8-10	<ul style="list-style-type: none"> <li>• dangos dealltwriaeth dda o'r nofel</li> <li>• <i>cyflwyno'r gwaith yn drefnus</i></li> <li>• <i>arddangos gafael dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i></li> </ul>
4-7	<ul style="list-style-type: none"> <li>• dangos dealltwriaeth eithaf da o'r nofel</li> <li>• <i>dangos trefn mewn rhannau o'r gwaith</i></li> <li>• <i>dangos y gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i></li> </ul>
0-3	<ul style="list-style-type: none"> <li>• arddangos gwybodaeth am gynnwys y nofel trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol am y stori</li> <li>• <i>ymgais at ddilyniant</i></li> <li>• <i>ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol ac i atalnodi a sillafu rhai geiriau'n gywir ar adegau</i></li> </ul>

(ch)

[6]

Unig	Wedi colli ei gwr
cwynfanllyd	Cwyno wrth yr heddlu'n aml
busneslyd	Byw yn y ffenest – gweld Einir yn cyrraedd gyda Meredydd
cenfigennus	Cenfigennus o Meredydd am gael y sylw pan gollodd ei rieni a hithau newydd golli Wil
rhagfarnllyd	Wedi penderfynu bod Meredydd yn euog cyn clywed y newyddion gan fod Bethan yn perthyn iddi

5-6	<ul style="list-style-type: none"><li>dangos dealltwriaeth dda o'r cymeriad</li><li>rhoi nifer o resymau / digwyddiadau fel tystiolaeth</li></ul>
3-4	<ul style="list-style-type: none"><li>dangos dealltwriaeth eithaf da o'r cymeriad</li><li>rhoi rhai rhesymau / digwyddiadau fel tystiolaeth</li></ul>
0-2	<ul style="list-style-type: none"><li>arddangos gwybodaeth am gymeriad trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol am y stori</li><li>ambell gyfeiriad at reswm neu ddigwyddiad</li></ul>

- (d) (i) 1 marc am sylw perthnasol x 2 [2]
- (ii) 1 marc am sylw perthnasol x 2 [2]
- (iii) 1 marc am enwi'r nodwedd
- 1 marc am ddyfyniad cywir  
2 marc am sylw drafod effaith [4]

(dd) Gellir sôn am bwyntiau megis:

[10]

- Syndod bod Robin Hughes Gwastad Hir wedi dod i'w gartref i ffonio'r heddlu
- Cyfeirio at y dyn yn yr ardd y noson gynt
- Cyfeirio at agwedd annymunol Richard Jones
- Ei ymateb i Gladys fel person a chymydoges iddo
- Beth fyddai'n digwydd i dŷ Gladys
- Cyfeirio at ei berthynas ag Einir

8-10	<ul style="list-style-type: none"><li>• dangos gwybodaeth dda am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau</li><li>• dangos ymwybyddiaeth o brif nodweddion y testun gwreiddiol o ran nawws ac awyrgylch yn eithaf da</li><li>• ymwybyddiaeth o nodweddion y cymeriad a'i deimladau</li><li>• <i>adnabyddiaeth eithaf da o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu eithaf da sy'n briodol i'r pwrpas</i></li><li>• <i>arddangos gafael dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i></li></ul>
4-7	<ul style="list-style-type: none"><li>• dangos gwybodaeth am y testun gwreiddiol - trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol i'r dasg dan sylw am gymeriadau a digwyddiadau</li><li>• ymgais i adlewyrchu'r testun gwreiddiol o ran nawws ac awyrgylch</li><li>• dangos peth dealltwriaeth o gymeriadau</li><li>• <i>ymwybyddiaeth fras o'r ffurf gan ddangos peth ymdrech i ysgrifennu'n briodol i'r pwrpas</i></li><li>• <i>dangos y gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i></li></ul>
0-3	<ul style="list-style-type: none"><li>• dangos peth gwybodaeth am y testun gwreiddiol - cymeriadau a digwyddiadau.</li><li>• ymgais i gyflwyno gwaith creadigol yn seiliedig ar destun syml</li><li>• ychydig o fanylion am gymeriadau a digwyddiadau</li><li>• <i>peth ymwybyddiaeth o'r ffurf a'r angen i ysgrifennu'n briodol i'r pwrpas</i></li><li>• <i>ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol ac i atalnodi a sillafu rhai geiriau'n gywir ar adegau</i></li></ul>

[40]

## I Ble'r Aeth Haul y Bore?

### C.6

- (a) 1½ marc am bob ateb cywir hyd at 2 ffaith [3]  
Gellir sôn am bwyntiau megis:
- Chiquito ei baban 7 diwrnod oed wedi cael ei ladd gan Dicks
  - Cafodd ei threisio yn ystod yr ymosodiad
  - Gweld y Cotiau Glas yn ymosod ar yr Indiaid – lladd hen wragedd a phlant
  - Cael ei chwipio yn lle Quanah
  - Taro'n fud
- (b) Gellir sôn am bwyntiau megis: [3]  
1 marc am bob pwynt
- Claddu corff Chiquito mewn croen byffalo a'i glymu i'r goeden
  - Gwneud dawns ryfel – paentio ei gorff
  - Torri ei law – defnyddio'r gwaed ar ôl ei flasgu a gwneud marciau ar ei wyneb
  - Nôl powdr gwn a saethau
  - Ymosod ar y Cotiau Glas
- (c) Gellir sôn am bwyntiau megis: [10]
- Haul y Bore'n gwrthod gadael y llwyth er mwyn mynd gyda'i gŵr Chico
  - Haul y Bore'n addo helpu'r henoed ar y daith faith i'r Bosque
  - Cerdded gyda Quanah
  - Milwyr yn chwipio Quanah am ei bod yn gorffwys - Haul y Bore yn sefyll rhwng Quanah a'r milwr er mwyn ei hamddiffyn
  - Dicks yn mynd i daro Haul y Bore ar ôl ei gweld yn cynorthwyo Quanah – saeth Chico yn ei daro yn ei ysgwydd
  - Carson yn helpu Haul y Bore i ddianc
  - Haul y Bore'n cyflawni hunanladdiad gyda gwn Dicks
  - Indiaid yn gwrthod cerdded

8-10	<ul style="list-style-type: none"> <li>• dangos dealltwriaeth dda o'r nofel</li> <li>• <i>cyflwyno'r gwaith yn drefnus</i></li> <li>• <i>arddangos gafaél dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i></li> </ul>
4-7	<ul style="list-style-type: none"> <li>• dangos dealltwriaeth eithaf da o'r nofel</li> <li>• <i>dangos trefn mewn rhannau o'r gwaith</i></li> <li>• <i>dangos y gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i></li> </ul>
0-3	<ul style="list-style-type: none"> <li>• arddangos gwybodaeth am gynnwys y nofel trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol am y stori</li> <li>• <i>ymgais at ddilyniant</i></li> <li>• <i>ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol ac i atalnodi a sillafu rhai geiriau'n gywir ar adegau</i></li> </ul>



(ch)

Creulon	Lladd Chiquito / treisio Haul y Bore
Dialgar	Dial ar Carson am ei agwedd tuag at yr Indiaid
Twyllodrus	Dosbarthu blancedi â'r frech wen
Celwyddog	Yr adroddiad i Carleton
Hunanol	Gyrru milwyr eraill i wneud y gwaith budr / meddwl am ei ddyfodol / dyrchafiad o fewn y fyddin

5-6	<ul style="list-style-type: none"><li>dangos dealltwriaeth dda o'r cymeriad</li><li>rhoi nifer o resymau / digwyddiadau fel tystiolaeth</li></ul>
3-4	<ul style="list-style-type: none"><li>dangos dealltwriaeth eithaf da o'r cymeriad</li><li>rhoi rhai rhesymau / digwyddiadau fel tystiolaeth</li></ul>
0-2	<ul style="list-style-type: none"><li>arddangos gwybodaeth am gymeriad trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol am y stori. Ambell gyfeiriad at reswm neu ddigwyddiad.</li></ul>

[6]

(d) (i) 1 marc am sylw perthnasol x 2 [2]

(ii) 1 marc am sylw perthnasol x 2 [2]

(iii) 1 marc am enwi'r nodwedd  
1 marc am ddyfyniad cywir  
2 marc am sylw drafod effaith [4]

(dd) Gellir sôn am bwyntiau megis: [10]

- dianc o'i gell ar ôl tynnu gwn ar Carleton
- gwisgo dillad Carleton
- dianc o'r Ffort ar gefn ceffyl yn gwisgo dillad Carleton
- marchogaeth i Geunant de Chelley ac yn gwisgo dillad y Cheyenne yn lle ei lifrau milwrol
- cyfarfod Chico yn yr ogof – cynllunio i ddial ar Dicks

8-10	<ul style="list-style-type: none"><li>dangos gwybodaeth dda am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau</li><li>dangos ymwybyddiaeth o brif nodweddion y testun gwreiddiol o ran naws ac awyrgylch yn eithaf da</li><li>ymwybyddiaeth o nodweddion y cymeriad a'i deimladau</li><li><i>adnabyddiaeth eithaf da o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu eithaf da sy'n briodol i'r pwrpas</i></li><li><i>arddangos gafael dda ar sillafu atalnodi a gramadeg</i></li></ul>
4-7	<ul style="list-style-type: none"><li>dangos gwybodaeth am y testun gwreiddiol - trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol i'r dasg dan sylw am gymeriadau a digwyddiadau</li><li>ymgais i adlewyrchu'r testun gwreiddiol o ran naws ac awyrgylch</li><li>dangos peth dealltwriaeth o gymeriadau</li><li><i>ymwybyddiaeth fras o'r ffurf gan ddangos peth ymdrech i ysgrifennu'r briodol i'r pwrpas</i></li><li><i>dangos y gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i></li></ul>
0-3	<ul style="list-style-type: none"><li>dangos peth gwybodaeth am y testun gwreiddiol - cymeriadau a digwyddiadau</li><li>ymgais i gyflwyno gwaith creadigol yn seiliedig ar destun syml</li><li>ychedig o fanylion am gymeriadau a digwyddiadau</li><li><i>peth ymwybyddiaeth o'r ffurf a'r angen i ysgrifennu'n briodol i'r pwrpas</i></li><li><i>ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol ac i atalnodi a sillafu rhai geiriau'n gywir ar adegau</i></li></ul>

**Haen Uwch**  
Barddoniaeth

**C.1**

- (a) Thema: Cymru a Chymreictod [2]  
Bardd: Gerallt Lloyd Owen
- (b) Cynnwys y gerdd [20]  
Gellir sôn am bwyntiau megis:
- O'r frawddeg gyntaf, gwelwn mai cerdd am Gymru yw hon: '**Cawsom wlad i'w chadw**' Yr hyn a wna'r llinell yw gwneud i ni deimlo'n euog nad ydym yn gwneud digon i'w chadw.
  - Mae'r '**darn o dir**' a gawsom yn profi '**ein bod wedi mynnu byw.**' Ond nid y presennol yn unig a welir yn y gerdd. Aiff y bardd â ni i'r gorffennol lle bu Cymru yn ymladd a byw ei hanes unigryw ei hunan.
  - Wedyn â'r bardd ymlaen i sôn am yr iaith, roedd yr iaith etifeddodd Cymru'n hen a gellid teimlo ias y Gymraeg ym mynyddoedd Cymru.
  - Gwelwn yn awr y difrod a wnaethom i'n gwlad gan droi tir yn safleoedd **diwydiannol** "**troesom ein tir yn simneiau tân.**" Bu'r comisiwn coedwigaeth yn plannu coed a chodwyd peilonau i gyflenwi trydan i ardaloedd gwledig Cymru, "**plannu coed a pheilonau cadarn**" a boddwyd cymoedd Tryweryn a Llanwddyn "**lle nad oedd llyn**" er mwyn rhoi dŵr i Loegr. Erbyn hyn mae'r Cymry yn genedl o "**estroniaid heb ystyr i'w hanes**". Nid yw'r gorffennol yn bwysig bellach.
  - Pwysleisir ein gwendid ni trwy ein trosi'n "**gwymon o ddyinion**" – heb wreiddiau. Rydym wedi troi'r Gymraeg i fod yn iaith i'w chywilyddio "**iaith ein cywilydd ni.**"
  - Gorffennir y gerdd â'r wireb: '**Gwerth cynnydd yw gwarth cenedl**' ac os byddwn ni'n dawel ac yn derbyn y drefn, yna marw byddwn ni: '**a'i heddw yw ei hangau hi.**'

Rhaid cyfeirio at y gerdd gyfan.

16-20	<ul style="list-style-type: none"> <li>• dadansoddi a dangos dealltwriaeth dreiddgar o'r cynnwys</li> <li>• defnyddio dyfyniadau'n effeithiol</li> <li>• <i>cyflwyno'r gwaith yn glir a chydlynus</i></li> <li>• <i>gafael sicr iawn ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i></li> </ul>
10-15	<ul style="list-style-type: none"> <li>• dadansoddi a dangos dealltwriaeth dda o'r cynnwys</li> <li>• defnyddio dyfyniadau'n addas a phwrpasol</li> <li>• <i>cyflwyno'r gwaith yn glir a threfnus</i></li> <li>• <i>gafael dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i></li> </ul>
4-9	<ul style="list-style-type: none"> <li>• dangos dealltwriaeth eithaf da o'r cynnwys</li> <li>• defnyddio dyfyniadau</li> <li>• <i>cyflwyno'r gwaith yn drefnus</i></li> <li>• <i>arddangos gafael dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i></li> </ul>
0-3	<ul style="list-style-type: none"> <li>• arddangos gwybodaeth am gynnwys y gerdd trwy gyflwyno ffeithiau perthnasol</li> <li>• defnyddio ambell ddyfyniad</li> <li>• <i>cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus</i></li> <li>• <i>gafael weddol dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg yn gywir</i></li> </ul>

- (c) Trafod nodweddion arddull [8]  
 4 nodwedd x 2 farc yr un  
 Ni ellir cyfeirio at yr un nodwedd ddwywaith  
 ½ marc am enwi'r nodwedd  
 ½ marc am ddyfynnu'r nodwedd  
 1 marc am drafod effeithiolrwydd

- (ch) [10]

8-10	<ul style="list-style-type: none"> <li>• dadansoddi a dangos dealltwriaeth dreiddgar o'r thema</li> <li>• defnyddio dyfyniadau'n effeithiol</li> <li>• <i>cyflwyno gwaith yn glir a chydlynus</i></li> <li>• <i>gafael gadarn ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i></li> </ul>
5-7	<ul style="list-style-type: none"> <li>• dangos dealltwriaeth dda o'r thema</li> <li>• defnyddio dyfyniadau'n addas a phwrpasol</li> <li>• <i>cyflwyno'r gwaith yn glir a threfnus</i></li> <li>• <i>gafael dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i></li> </ul>
2-4	<ul style="list-style-type: none"> <li>• dangos dealltwriaeth eithaf da o'r thema</li> <li>• defnyddio dyfyniadau</li> <li>• <i>cyflwyno'r gwaith yn drefnus</i></li> <li>• <i>arddangos gafael dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i></li> </ul>
0-1	<ul style="list-style-type: none"> <li>• dangos ychydig o ddealltwriaeth o'r thema</li> <li>• defnyddio ambell ddyfyniad</li> <li>• <i>cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus</i></li> <li>• <i>gafael weddol dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i></li> </ul>

[40]

## C.2

